# ATODLEN 2

# TELERAU CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

## RHAN 1

## TELERAU A YMHLYGIR GAN Y DDEDDF

### PENNOD 2

### CYTUNDEBAU SY'N YMWNEUD Â LLEINIAU AC EITHRIO'R RHAI HYNNY SYDD AR SAFLEOEDD AWDURDODAU LLEOL I SIPSIWN A THEITHWYR

*Gwerthu cartref symudol*

10 (1) Os nad yw'r cytundeb yn gytundeb newydd, mae gan y meddiannydd hawl i werthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb heb gymeradwyaeth y perchennog—

(a) os bydd y meddiannydd yn cyflwyno i'r perchennog hysbysiad ("hysbysiad o'r bwriad i werthu") fod y meddiannydd yn bwriadu gwerthu'r cartref symudol, ac aseinio'r cytundeb, i'r person a enwir yn yr hysbysiad (y "meddiannydd arfaethedig"), a

(b) os bodlonir yr amod cyntaf neu'r ail amod.

(2) Yr amod cyntaf yw nad yw'r meddiannydd, o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y cafodd y perchennog yr hysbysiad o'r bwriad i werthu ("y cyfnod o 21 o ddiwrnodau"), yn cael hysbysiad gan y perchennog fod y perchennog wedi gwneud cais i dribiwnlys am orchymyn yn atal y meddiannydd rhag gwerthu'r cartref symudol, ac aseinio'r cytundeb, i'r meddiannydd arfaethedig ("gorchymyn gwrthod").

(3) Yr ail amod yw hyn—

(a) o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau—

(i) bod y perchennog yn gwneud cais i dribiwnlys am orchymyn gwrthod, a

(ii) bod y meddiannydd yn cael hysbysiad o'r cais gan y perchennog, a

(b) bod y tribiwnlys yn gwrthod y cais.

(4) Os bydd y perchennog yn gwneud cais i dribiwnlys am orchymyn gwrthod o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau ond nad yw'r meddiannydd yn cael hysbysiad o'r cais gan y perchennog o fewn y cyfnod hwnnw—

(a) mae'r cais i'w drin fel pe bai heb ei wneud, a

(b) gan hynny mae'r amod cyntaf i'w drin fel pe bai wedi ei fodloni.

(5) Rhaid i hysbysiad o'r bwriad i werthu gynnwys unrhyw wybodaeth a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(6) O ran hysbysiad o'r bwriad i werthu neu hysbysiad o gais am orchymyn gwrthod—

(a) rhaid iddo fod mewn ysgrifen, a

(b) caniateir ei gyflwyno drwy'r post.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(7) Dim ond ar un neu ragor o'r seiliau a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru y caniateir gwneud cais am orchymyn gwrthod; a rhaid i hysbysiad o gais am orchymyn gwrthod bennu ar ba sail neu seiliau y gwneir y cais.

(8) Mae'n ofynnol i'r person y gwerthir y cartref symudol iddo ("y meddiannydd newydd") dalu comisiwn i'r perchennog ar werthiant y cartref symudol ar raddfa nad yw'n fwy nag unrhyw raddfa a bennir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(9) Ac eithrio i'r graddau a grybwyllir yn is-baragraff (8), ni chaiff y perchennog ei gwneud yn ofynnol i unrhyw daliad gael ei wneud (boed i'r perchennog neu fel arall) mewn cysylltiad â gwerthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi gofynion ynglŷn â gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r perchennog, y meddiannydd, meddiannydd arfaethedig neu'r meddiannydd newydd gydymffurfio â hwy mewn cysylltiad—

(a) â gwerthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb, ac

(b) â thalu comisiwn yn rhinwedd is-baragraff (8).